**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

27 Ionawr 2016

Annwyl Weinidog

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, 2016-17**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr 2016 i ateb cwestiynau am gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17, yn benodol ynglŷn â chymunedau a threchu tlodi.

Hoffai'r Pwyllgor dynnu eich sylw at y materion a nodir isod, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb, lle y bo'n briodol, maes o law.

**1. Cymunedau yn Gyntaf**

Rydym yn croesawu diogelu arian y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf rhag unrhyw leihad mewn arian parod.

Yn dilyn y gwaith craffu y llynedd ar y gyllideb ddrafft, ysgrifenasom atoch ynghylch effeithiolrwydd Cymunedau yn Gyntaf, gan fod y Pwyllgor yn awyddus i weld cysylltiad amlwg rhwng buddsoddi yn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a chanlyniadau clir, mesuradwy sy'n deillio o'r Rhaglen, er mwyn pennu gwerth am arian.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

Mewn ymateb i'n llythyr, dywedasoch wrthym fod darpariaeth yn cael ei mesur yn ôl maint ac effaith, yn ôl y nifer o ymyriadau a sawl un o'r ymyriadau hynny wnaeth arwain at ganlyniad cadarnhaol i'r unigolyn.

Rydym yn cydnabod manteision Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau, fel arf ar gyfer mesur perfformiad a llywio penderfyniadau ariannu. Rydym yn cydnabod y gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i wella'r trefniadau ar gyfer asesu effeithiolrwydd ei rhaglenni allweddol a'r symudiad i ddull seiliedig ar ganlyniadau gan ddefnyddio Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn gofyn am ragor o fanylion am sut y mae hyn wedi helpu i lywio'r broses o bennu'r gyllideb, yn enwedig y penderfyniadau i ddiogelu'r cyllid ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Yn yr un modd, byddai gennym ddiddordeb mewn cael eich sylwadau ar hyn.

Serch hynny, rydym yn pryderu bod peth o'r dystiolaeth yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf yn methu â dangos bod y buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir ac felly'n darparu gwerth am arian. Nid yw'n glir sut y gall Llywodraeth Cymru briodoli canlyniadau penodol o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i'r rhaglen ei hun, yn hytrach na rhaglenni eraill neu amodau economaidd cyffredinol.

Nodwyd gennych fod dadelfennu effaith rhaglenni eraill o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn anodd. Rydym yn credu y dylai mwy o waith gael ei wneud yn y maes hwn fel bod y cysylltiadau rhwng buddsoddiadau a chanlyniadau yn gliriach.

Cytunasoch i rannu peth o'r data sydd gennych sy'n cymharu cyfraddau cyflogaeth rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill y tu allan i'r rhaglen. Byddem yn croesawu'r wybodaeth honno.

At hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro:

i. Pam nad yw nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi yn cael ei olrhain fel dangosydd perfformiad Cymunedau yn Gyntaf;

ii. Sut yr ydych yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, a manylion pellach am y broses Cynllun Cynnwys Cymunedau.

## 2. Digartrefedd

Yn ystod ein cyfarfod, dywedasoch wrthym eich bod yn rhoi £3 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2016 i gefnogi gweithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mewn ymateb ar wahân i WAQ (69580), dywedasoch y byddech yn rhoi £2.2 miliwn ychwanegol i awdurdodau lleol.

Dywedasoch wrthym fod y dyraniad o £3 miliwn yn cynnwys £0.8 miliwn o'r gyllideb atal digartrefedd a £2.2 miliwn ychwanegol o ar draws y portffolio cyfan. Gofynasom i chi pam nad yw'r dyraniad hwn o £2.2 miliwn yn ymddangos yn y llinell gyllideb, a dywedasoch fod hyn oherwydd ei fod yn "bwysau ariannu'r gyllideb". A allech chi:

i. egluro'r hyn yr oeddech yn ei olygu gan y datganiad hwn,
ii. rhoi dadansoddiad o'r meysydd yn eich portffolio cyffredinol y mae'r £ 2.2 miliwn wedi'i dynnu ohonynt, a
iii. cadarnhau a fydd y dyraniad ychwanegol i awdurdodau lleol yn £3 miliwn neu'n £2.2 miliwn.

## 3. Cynhwysiant ariannol

Rydym yn nodi y bydd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r cynllun cyflwyno "wedi'u hadnewyddu" yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn 2016 a'u hariannu drwy Linell Wariant y Gyllideb Cynhwysiant Ariannol sy'n bodoli eisoes.

Rydym yn edrych ymlaen at drafod hyn gyda chi yn fwy manwl yn ein cyfarfod ar 27 Ionawr.

## 4. Swyddogion Galluogi Tai

Rydym yn nodi nad oes unrhyw ddyraniad cyllid penodol yn y gyllideb ddrafft ar gyfer Swyddogion Galluogi Tai Gwledig, a bod partneriaid eraill yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y swyddi hyn. Fodd bynnag, yn eich tystiolaeth, dywedasoch eich bod wedi gwneud ymrwymiad 'mewn egwyddor' o £ 100,000 i ariannu Swyddogion Galluogi Tai Gwledig.

Mae eich papur yn dangos Llinell Wariant Cyllideb refeniw ar gyfer "Swyddogion Galluogi Tai" sydd wedi'i lleihau o £95,000 i sero yn 2016-17. A allwch chi gadarnhau:

i. a yw'r BEL hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu Swyddogion Galluogi Tai Gwledig, ac

ii. a fydd y cyllid hwnnw ar gael i barhau â gwaith Swyddogion Galluogi Tai Gwledig.

**5. Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)**

Fel y gwyddoch, derbyniodd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Roeddem yn synnu felly i glywed er eich bod yn disgwyl i 21 darn o is-ddeddfwriaeth gael eu gwneud o dan y Ddeddf, roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw waith paratoadol wedi ei wneud o ran drafftio rheoliadau ac nid oes unrhyw arian wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn yng nghyllideb 2016-17.

i. A allech chi gadarnhau pryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn cyflwyno rheoliadau a chanllawiau o dan y Ddeddf?

Yn gywir

Chris Chapman

**Christine Chapman AC**
Cadeirydd

cc: Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid